

ECEY6005/C

Adennill Paradwys? Cynaliadwyedd yn y Blynnyddoedd Cynnar



1902126



Darganfod...

Wrth benderfynu ar ardal i ganolbwyntio arno er mwyn cyflawni'r darn yma o waith, roedd yna nifer o lefydd o amgylch Sir Gaerfyrddin i ddewis o. Penderfynais i ganolbwyntio ar draeth Llanelli a Pharc Dŵr Sandy. Mae'r ddau le yma yn rhedeg i mewn i'w gilydd ac yn cael eu cysylltu gyda'r llwybr beicio. Mae'r llwybr hefyd yn mynd yr holl ffordd i Borth Tywyn, felly mae nifer o bethau i bobol i wneud yn yr ardal yma sydd yn gallu cymryd trwy'r dydd iddynt oes maent yn dewis gwneud.



Wrth dyfu fyny fe wnes i wario llawer o amser yn ystod y penwythnos yn chwarae ar y traeth ac yn mynd ar fy meic o amgylch y llyn ym Mharc Dŵr Sandy. Hyd heddiw rwyf dal yn mwynhau cerdded o amgylch y llyn gan ei fod yn lle tawel iawn i'r meddwl ac yn le da i ymlacio'r meddwl, sydd yn fuddiol i'm lles. Mae hefyd yn le da i wneud ymarfer corff gan fod yna nifer o lwybrau hir a byr a gall pobol eu defnyddio.

Darganfod...

Wrth ymweld â'r traeth mae yna nifer o bethau i wneud a llefydd i fynd yn ogystal â'r traeth er enghraifft...



Mae Parc Dŵr Sandy hefyd yn cynnwys

Archwilio...

Gan fod yr ardal yma yn boblogaidd iawn gyda phobol o bell ac agos, gall fod llawer o sbwriel o amgylch y lle. Er bod yna nifer o finiau mae dal darnau o sbwriel ar y llawr. Mae llawer o'r sbwriel mewn llefydd lle nad does yna fin sbwriel yn agos. Problem arall y mae'r ardal yma yn gorfod delio gydag yw baw cŵn. Mae yna nifer o arwyddion o amgylch sydd yn nodi'r pwysigrwydd o lanhau baw cŵn a'r gosb os nad yw hyn yn cael ei wneud. Hyd yn oed lle mae yna finiau ar gael o amgylch mae llawer ohonynt yn orlawn ac felly mae pobol yn gorfod gadael y bagiau ar y llawr neu ar ben y bin.

Gall hyn fod yn niweidiol i fywyd gwyllt sydd yn byw, yn benodol, ym Mharc Dŵr Sandy. Mae yna nifer o elyrch yn byw yn y llyn ym Mharc Dŵr Sandy. Mae hefyd nifer o bobol yn dod a'u cŵn lawr am dro o amgylch y llyn ac i'r traeth. Os oes llawer o sbwriel ar y llawr gall yr anifeiliaid sydd o amgylch bwyta'r sbwriel a gall hynny arwain at yr anifeiliaid yn mynd yn sâl neu hyd yn oed gwaeth.



Gwarchod...



Er bod yna nifer o finiau o amgylch yr ardal, gall fod yn syniad i ychwanegu mwy fel bod pobol yn agos at un ar bob adeg sydd yna yn lleihau'r temtasiwn o adael unrhyw beth ar y llawr. Gall hefyd fod yn syniad i roi poster i mae pobol o bob oedran yn gallu deall o amgylch yr ardal yn egluro pwysigrwydd codi baw cŵn ac i roi unrhyw sbwriel yn y bin. Gall y poster i yma hefyd cael ei rhoi ar y bin sbwriel fel bod plant o oedran ifanc yn gwybod beth sydd fod cael ei rhoi yn y biniau.



Er mwyn sicrhau bod llanast cwn yn cael ei rhoi mewn i bagiau ac yna yn cael ei rhoi yn bin sbwriel gall fod yn syniad i gosod blychau sydd yn cynnwys bagiau gall y cyhoedd defnyddio os ydynt wedi anghofio rhai. Gall hefyd bod yn buddiol i'r amgylchedd i ceisio cael bagiau sydd ddim yn cynnwys plastig



Rhannu...

Ar ôl cymerid rhan yn y wobr John Muir yma rwy'n teimlo fel fy mod wedi dysgu llawer ynglŷn â'r amgylchedd o'n hamgylch ac wedi sylweddoli ar broblemau efallai na fyddem wedi sylweddoli arno oni bai am y wobr yma. Rwyf hefyd wedi gweld y pwysigrwydd o rannu beth rwyf wedi dysgu gydag eraill sydd heb gymryd rhan yn y wobr yma. Enghraifft o hyn yw rwyf wedi bod yn rhannu beth wnes ddarganfod gyda'r ymarferwyr eraill yn y feithrinfa yr wyf yn gweithio ynddo. Ar ôl trafod gyda nhw, wnaethon nhw hefyd nodi nad oeddent hwythau wedi meddwl i edrych ar faint o lanast sydd o amgylch. Rydym hefyd wedi gwneud penderfyniad i ddechrau gwneud mwy o weithgareddau yn y feithrinfa sydd i wneud gydag ailgylchu ac amddiffyn yr amgylchedd fel bod ein plant yn dysgu o oedran ifanc am y pwysigrwydd o hyn.

